Nodyn technegol

Prosiect:	Astudiaeth WelTAG Niwgwl	**At:**	Neil Carpenter
Pwnc:	Tirwedd a Threflun WelTAG	**Gan:**	
Dyddiad:	12 Rhagfyr 2016	**cc:**	

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Atkins Limited at ddefnydd Cyngor Sir Penfro yn unig mewn ymateb i'w gyfarwyddiadau penodol. Ni dderbynnir atebolrwydd am unrhyw gostau, hawliadau na cholledion sy'n deillio o ddefnyddio'r ddogfen hon, neu unrhyw ran ohoni, at unrhyw ddiben heblaw am yr hyn y cafodd ei llunio'n benodol ar ei gyfer neu gan unrhyw barti heblaw am Gyngor Sir Penfro.

D.S. Caiff y testun yn y Nodyn Technegol hwn ei gynnwys mewn asesiad WelTAG amlddisgyblaethol cyn ei roi i'r cleient a chaiff ei newid/adolygu ymhellach.

1.1. Tirwedd a Threflun

1.1.1. Nodweddion y Dirwedd Leol

Mae opsiynau'r llwybr (ardal yr astudiaeth) ar arfordir gorllewinol Sir Benfro sy'n ymgorffori aneddiadau Trewŷen Uchaf ac Isaf tua'r gogledd yn 105m AOD ar ei uchaf gan ddisgyn yn raddol tua'r dwyrain i'r Garn a thua'r de i Niwgwl a Phenycwm. Rhwng y prif aneddiadau y mae ffermydd ac anheddau ar wasgar â thirwedd goediog donnog o'u cwmpas yn disgyn yn raddol i lawr i Nant y Brandi a'i chwm sy'n ffurfio cefnen ardal yr astudiaeth a chyrraedd tir gwastad isel Niwgwl a'i thraeth yn y pen draw.

Yr A487 yw'r brif ffordd sy'n cysylltu Niwgwl â Hwlffordd a Thyddewi, ac mae'r B4330 yn cysylltu â hon ac yn ffinio ag ardal yr astudiaeth tua'r gogledd-ddwyrain. Mae golygfeydd dramatig ar hyd yr A487 wrth iddi ddisgyn tua thraeth Niwgwl y mae ganddo dirwedd arfordirol a gwledig heb ei difetha.

Mae'r ardal yn amaethyddol yn bennaf â thirffurf donnog. Mae gwrychoedd llawn tyfiant uchel, cloddiau a choed gwrych yn ffinio â chaeau afreolaidd bach. Tua dwyrain ardal yr astudiaeth, mae'r caeau yn aml yn wael ar gyfer pori gyda glaswelltir wedi'i wella a'i ledwella wedi'i gymysgu â blociau o goetir o gwmpas y cyrsiau dŵr sy'n cysylltu â Nant y Brandi. Tua'r gogledd a'r de, mae'r caeau yn ymagor wrth i'r dirffurf godi a gwastadu, gan gynnig golygfeydd eang ar draws y dirwedd a thua'r arfordir.

Mae tirwedd adeiledig ardal yr astudiaeth yn cynnwys ffermydd, aneddiadau bach wedi'u gwasgaru o gwmpas y cwm ar y cyd â chyfleusterau twristiaid megis caffis, siopau a meysydd gwersylla yn Niwgwl. Mae Llwybr Arfordir Cymru a hawliau tramwy cyhoeddus eraill yn croesi drwy'r cwm i gynnig profiadau hamdden. Dim ond yn ysbeidiol y mae'r rhain i'w gweld o'r tir o'u cwmpas lle mae'n mynd yn goediog yn llethrau'r cwm a'r rhwydwaith o wrychoedd.

Mae golygfeydd mewn mannau yn agored ac yn bellter hir, yn enwedig tua'r arfordir ac aneddiadau Penycwm a Roch Bridge wrth i'r tir godi o'r traeth tua'r gogledd a'r de-ddwyrain. Yn adran ogledd-ddwyreiniol ardal yr astudiaeth, lle mae'r dirwedd yn mynd yn fwy coediog yn Nhrewŷen Uchaf ac Isaf, mae'r golygfeydd yn fwy cynwysedig gyda thir tonnog a gwrychoedd a choed uchel. Wrth i'r dirwedd hon ymagor ac wrth i'r tir ddisgyn tua'r gorllewin, mae'r golygfeydd hyn yn dod yn amlycach, yn enwedig wrth edrych i lawr dros gwm Nant y Brandi tua'r arfordir.

1.1.2. Nodweddion Tirwedd Eang

Mae opsiynau'r llwybr yn dod dan dair ardal nodweddion a nodir gan LANDMAP, gyda phedair ardal nodweddion gyfagos arall a all brofi effeithiau o ganlyniad i un neu fwy o opsiynau'r llwybr. Mae'r tabl canlynol yn nodi ardaloedd nodweddion opsiynau'r llwybr.

Tabl 11 LANDMAP: Ardaloedd Agweddau Tirwedd Weledol a Synhwyraidd

Cod Ardal Agwedd	Enw Ardal Agwedd	Opsiwn y Llwybr	Disgrifiad Cryno	Gwerthuso
PMBRKVS072	Druidston	3, J, 7	Mae'r dirwedd amaethyddol yn gorwedd ar dirffurf donnog ar wyll arfordirol yr ardal hon ar arfordir gorllewinol Sir Benfro. Mae'r dirwedd yn cynnwys cymoedd coediog bach a rhai gwrychoedd llawn tyfiant ac ardaloedd o brysg ac mae ganddi rai pentrefi a ffermydd bach â datblygiadau twristiaeth sy'n cynnwys meysydd carafanau. Mae'r cysylltiad arfordirol cryf yn ychwanegu at naws am le.	Gwerth uchel mewn cyflwr teg. Mae'r ardal o ffermdir arfordirol wedi'i gwella gan olygfeydd niferus o glogwyni a thraethau cyfagos ac mae dylanwad arfordirol cryf sy'n rhoi ardaloedd o brysg pori ac arfordirol garw
PMBRKVS112	Maes Awyr Breudeth	7, 11	Mae'r ardal yn ymwneud â'r dirwedd filwrol sy'n gysylltiedig â Maes Awyr Breudeth sydd wedi'i roi o'r neilltu ar hyn o bryd a goleuadau a thyrrau'r adeiladau atodol. Fe'i gosodir mewn tirwedd ddeniadol ehangach, mae'n ffurfio elfen tirwedd wahanredol, ddifrïol.	Gwerth isel mewn cyflwr teg. Cymysgedd hynod o adeiladau, rhedfeydd ac ati mewn tirwedd wledig. Mae'r ardaloedd amaethyddol o ddefnydd cymysg gyda rhai caeau mawr a reolir yn ddwys. Mae'r gwrychoedd wedi'u goresgeuluso mewn rhai ardaloedd.
PMBRKVS031	Ysgeifiog	7, 11	Nodwedd y dirwedd yn yr ardal hon yw ffermdir tonnog a dramwyir gan rwydwaith o wrychoedd/cloddiau/lonydd ymylol ag ambell ddarn bach o goetir a lleiniau prysg bach. Mae'r datblygiad yn nodweddiadol ar ffurf ffermydd a phentrefannau achlysurol wedi'u gwasgaru drwy dirwedd y ffermdir ag aneddiadau mwy sy'n cynnwys pentref y Garn.	Gwerth cymedrol mewn cyflwr teg. Mae'r dirwedd amaethyddol â pherthlys coediog bach a lleiniau coed, yn ogystal â rhai ardaloedd coediog mwy o werth lleol. Mae'r ardal o gyflwr cymysg. Mae'r ardaloedd amaethyddol o ddefnydd cymysg gyda rhai caeau mawr a reolir yn ddwys. Mae'r gwrychoedd wedi'u goresgeuluso mewn rhai ardaloedd.

1.1.3. Dynodiadau Tirwedd

Mae'r Dynodiadau Tirwedd yn cynnwys Parciau Cenedlaethol (PC), Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA) ac ardaloedd gwarchod eraill a rhwydweithiau hamdden o bwysigrwydd lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu Ewropeaidd. Mae ardal yr astudiaeth sy'n cynnwys holl opsiynau'r llwybr yn dod dan y dynodiadau tirwedd statudol canlynol:

- PC Arfordir Penfro (holl opsiynau'r llwybr);
- SoDdGA dynodedig posibl i Gwm Nant y Brandi (opsiynau 3, J a 7). Drwy ymgynghori â Chyngor Sir Penfro, deellir ei bod yn bosibl y caiff y cynefin cors iseldir sy'n mynd drwy ardal yr astudiaeth ei ddynodi'n SoDdGA yn y dyfodol. Felly, ar gyfer yr asesiad hwn, tybir bod y casgliad o gynefinoedd o ansawdd SoDdGA a rhoddwyd gwerth pwysigrwydd uchel iddynt;
- Llwybr Beicio Cenedlaethol 4 (holl opsiynau'r llwybr).

Nodir isod y dynodiadau statudol sydd o fewn 2km o opsiynau'r llwybr:

- SoDdGA Arfordir Penrhyn Dewi; oddeutu 0.5km o Opsiynau 3, J, 7 ac 11;
- Niwgwl i SoDdGA Arfordir Aber Bach; oddeutu 1km o Opsiynau 3 a J, 1.5km o Opsiwn 7 a 2km o Opsiwn 11;
- SoDdGA Afon Cleddau Orllewinol; oddeutu 2km o Opsiynau J a 7 ac 1.5km o Opsiwn 11;
- AGA Ynys Dewi ac Arfordir Penrhyn Dewi; oddeutu 1km o Opsiynau 3, J, 7 ac 11;

- ACA Sir Benfro Forol; oddeutu 0.5 o Opsiynau 3, J, 7 ac 11;
- ACA Afonydd Cleddau; oddeutu 2km o Opsiynau J a 7 ac 1.5km o Opsiwn 11;
- Henebion Cofrestredig; oddeutu 2km o Opsiwn 3, 1.5km o Opsiwn J, 0.5km o Opsiwn 7 a 0.25km o Opsiwn 11;
- Llwybr Arfordir Cymru; oddeutu 0.2km o Opsiwn 3, 0.7km o Opsiynau J, 7 ac 11.

1.2. Tirwedd a Threflun

1.2.1. Cyflwyniad

Ymgymerwyd â'r asesiad Cam 1 Tirwedd a Threflun hwn er mwyn rhoi gwybodaeth ddigonol i nodi'r sgil effeithiau a'r cyfyngiadau tebygol ar y dirwedd a'r treflun gan opsiynau arfaethedig y llwybr ar gyfer ffordd osgoi Niwgwl, er mwyn llywio'r broses benderfynu ar gyfer dewis opsiwn y llwybr a ffefrir.

Mae'r dirwedd yn ffynhonnell genedlaethol bwysig ac, er y gall esblygu a newid yn naturiol, mae'n rhaid ei hystyried yn ei chyflwr presennol fel adnodd gwerthfawr i genedlaethau'r dyfodol. Er mwyn canfod effeithiau posibl a thebygol y cynigion ar y dirwedd ac amwynder gweledol yr ardal, mae'n bwysig ystyried y safle yng nghyd-destun ei dirwedd bresennol. Cyfeirir at hyn fel ei 'gyflwr sylfaenol'.

Mae sefyllfa bresennol neu gyflyrau sylfaenol y safle a'r cyffiniau, gan gynnwys presenoldeb defnydd tir presennol a dynodiadau tirwedd gwarchodedig yn cael eu hystyried wrth gyrchu ansawdd, nodweddion a golygfeydd y dirwedd.

Dylid ymgymryd ag asesiad manwl o'r cyflwr sylfaenol maes o law fel rhan o'r Asesiad Effaith Tirwedd a Gweledol manwl gyda ffocws penodol ar yr amgylcheddau naturiol ac adeiledig presennol, gan gynnwys patrymau anheddiad, dulliau a deunyddiau pensaernïol, seilwaith a dull o gyrraedd y safle, yn ogystal â'r topograffi naturiol a'r gorchudd tir nodweddiadol sy'n cynnwys patrymau amaethyddol a llystyfiant.

1.2.2. Methodoleg

Mae'r asesiad tirwedd a threflun wedi'i gynnal yn unol â'r arweiniad canlynol:

- Design Manual for Roads and Bridges (DMRB) Cyfrol 11, Adran 3, Rhan 5, Landscape Effects;
- Nodyn Cyngor Dros Dro 135/10 (W) – cyfeiriwyd ato ar y cyd â DMRB;
- Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru: WelTAG: Mehefin 2008;
- Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment 3ydd Argraffiad, 2013 (GLVIA) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol;
- Arweiniad tirwedd a gyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC).

Casglwyd data o'r ffynonellau canlynol hefyd:

- Landmap: http://landmap-maps.naturalresources.wales;
- Magic: Multi-Agency Geographic Information for the Countryside, Defra: http://magic.defra.gov.uk;
- Llwybrau Beicio Cenedlaethol Sustrans: http://www.sustrans.org.uk;
- Cyngor Sir Penfro: http://sir-benfro.gov.uk;
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC); http://cyfoethnaturiol.cymru;
- Mapiau Arolwg Ordnans: https://osmaps.ordnancesurvey.co.uk.

At ddiben yr asesiad hwn, diffinnir ardal yr astudiaeth gan y graddau gweledded a ddiffinnir yn gyffredinol gan y topograffi lleol, rhwng oddeutu 0m a 105m AOD, oddeutu 2km o opsiynau arfaethedig y cynllun.

Disgrifir nodweddion y dirwedd gan gyfeirio at yr unedau nodwedd tirwedd ehangach a nodir gan LANDMAP, adnodd gwerthuso tirwedd a ddarperir gan CNC. Cefnogwyd hyn gan ymweliad â'r safle a gynhaliwyd gan Atkins Landscape Architects ym mis Mai 2016.

Nodwyd nodweddion tirwedd a threflun allweddol a'u sensitifrwydd, gan gynnwys eu gallu i ymdopi â newid. Yna, aseswyd sut byddai opsiynau arfaethedig y cynllun yn cael sgil effaith ar y nodweddion allweddol ac a fyddai'r opsiynau hyn yn debygol o gael sgil effeithiau sylweddol neu hirdymor.

Mae Tabl 22 yn nodi meini prawf sensitifrwydd tirwedd:

Tabl 22 Sensitifrwydd Tirwedd

Meini Prawf	Diffiniad
Isel	Tirwedd a all ymdopi â'r newid arfaethedig sylweddol heb gael sgil effeithiau sylweddol ar natur, nodweddion nac elfennau'r dirwedd.
Canolig	Tirwedd a all dderbyn y newid arfaethedig cyfyngedig gan gael rhai sgil effeithiau ar natur, nodweddion ac elfennau'r dirwedd.
Uchel	Tirwedd sy'n arbennig o sensitif i'r newid arfaethedig, a fyddai'n arwain at gael sgil effeithiau sylweddol ar natur, nodweddion ac elfennau'r dirwedd.

Mae'r asesiad gweledol yn nodi'r derbynyddion gweledol allweddol o fewn ardal yr astudiaeth gan gynnwys defnyddwyr ffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus ac eiddo preswyl y cynllun arfaethedig yn seiliedig ar newidiadau i olygfeydd o'r derbynyddion hyn. Mae'n disgrifio ansawdd y golygfeydd presennol o'r derbynyddion hyn, eu sensitifrwydd ac a yw'r cynllun arfaethedig yn debygol o gael sgil effaith sylweddol dros dro neu hirdymor.

Mae sensitifrwydd derbynyddion gweledol yn fater pwysig wrth asesu arwyddocâd effaith. Mae'r sensitifrwydd hwn yn seiliedig ar y math o dderbynnydd, yn ogystal â natur arbennig neu brinder yr olygfa. Ystyrir bod gan eiddo preswyl sensitifrwydd uchel oherwydd eu natur. Mae ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth ddosbarthu sensitifrwydd derbynyddion gweledol yn cynnwys:

- Cyfnod amlygu'r olygfa (byrdymor, y tymor canolig neu'r hirdymor)
- Graddau amlygu'r olygfa
- Swyddogaeth y derbynnydd
- Natur yr olygfa a'r cwmpas ar gyfer lleddfu.

Mae Tabl 33 yn nodi meini prawf sensitifrwydd y derbynyddion gweledol:

Tabl 33 Sensitifrwydd Derbynyddion Gweledol

Sensitifrwydd y derbynnydd gweledol i newid	Derbynyddion Gweledol
Uchel	Eiddo preswyl Ffermydd/Ffermdai Defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau troed, llwybrau beicio a llwybrau ceffylau
Canolig	Defnyddwyr ffordd Unedau Diwydiannol Gweithleoedd eraill, gan gynnwys archfarchnadoedd a swyddfeydd
Canolig – Isel	Cyfleusterau hamdden lle nad mwynhau'r dirwedd yw'r nod (e.e. caeau chwaraeon)

1.2.3. Effeithiau

Er mwyn darganfod lefel arwyddocâd sgil effeithiau, mae angen nodi gwerth amgylcheddol yr adnodd a/neu lefel sensitifrwydd y derbynnydd a maint yr effaith.

Mae DMRB Cyfrol 11, Adran 2, yn pennu'r meini prawf ar gyfer Gwerth Amgylcheddol a Maint Effaith, gan ddangos Arwyddocâd yr Effaith fel swyddogaeth y rhain. Mae'r tablau canlynol yn pennu'r meini prawf ar gyfer pob cam wrth benderfynu ar hyn.

Clustnodi Gwerth Amgylcheddol: Rhestrir disgrifyddion a meini prawf nodweddiadol ar gyfer gwerth adnodd amgylcheddol yn Tabl 44 isod.

Tabl 44 Gwerth Amgylcheddol a Disgrifyddion Nodweddiadol

Gwerth (sensitifrwydd)	Disgrifyddion Nodweddiadol
Uchel Iawn	Pwysigrwydd a phrinder uchel iawn, graddfa ryngwladol a photensial cyfyngedig iawn i amnewid.
Uchel	Pwysigrwydd a phrinder uchel, graddfa genedlaethol a photensial cyfyngedig i amnewid.
Canolig	Pwysigrwydd a phrinder uchel neu ganolig, graddfa ranbarthol a photensial cyfyngedig i amnewid.
Isel	Pwysigrwydd a phrinder isel neu ganolig, graddfa leol.
Dibwys	Pwysigrwydd a phrinder isel iawn, graddfa leol.

Clustnodi Maint yr Effaith: Rhestrir disgrifyddion a meini prawf nodweddiadol ar gyfer y maint neu'r effeithiau yn Tabl 55 isod.

Tabl 55 Maint yr Effaith a Disgrifyddion Nodweddiadol

Maint yr Effaith	Disgrifyddion nodweddiadol
Andwyol mawr	Colli adnodd a/neu ansawdd a chyflwr adnodd; difrod sylweddol i natur, nodweddion neu elfennau allweddol
Buddiol mawr	Gwelliant mawr i ansawdd adnodd; gwaith adfer neu wella helaeth; gwelliant mawr i ansawdd priodoledd
Andwyol cymedrol	Colli adnodd, ond heb gael sgil effaith ar y cyflwr; colli rhai nodweddion neu elfennau allweddol yn rhannol neu ddifrod rhannol iddynt
Buddiol cymedrol	Budd i'r nodweddion neu'r elfennau allweddol neu ychwanegu atynt; gwella ansawdd priodoledd
Andwyol mân	Rhywfaint o newid mesuradwy mewn priodoleddau, ansawdd neu fregusrwydd; colled neu addasiad bach i un neu fwy o nodweddion neu elfennau allweddol
Buddiol mân	Budd mân i un neu fwy o nodweddion neu elfennau allweddol neu ychwanegu atynt; rhywfaint o effaith fuddiol ar y priodoledd neu lai o berygl o effaith negyddol
Andwyol dibwys	Colled fân iawn neu addasiad niweidiol i un neu fwy o nodweddion neu elfennau allweddol
Buddiol dibwys	Budd mân iawn i un neu fwy o nodweddion neu elfennau allweddol neu ychwanegiad cadarnhaol atynt
Dim newid	Dim colled nac addasiad i neu fwy o nodweddion neu elfennau allweddol; dim effaith y gellir sylwi arni i'r naill gyfeiriad.

Clustnodi Arwyddocâd yr Effaith: Nodir y disgrifyddion nodweddiadol ar gyfer Arwyddocâd Effaith yn Tabl 6 isod.

Tabl 66 Disgrifyddion Arwyddocâd y Categorïau Sgil Effaith

Categori ar arwyddocâd	Disgrifyddion nodweddiadol y sgil effaith
Mawr Iawn	Clustnodir y lefel hon o arwyddocâd i sgil effeithiau andwyol yn unig fel arfer. Maent yn cynrychioli ffactorau allweddol yn y broses benderfynu. Yn gyffredinol, ond nid yn unig,

	mae'r sgil effeithiau hyn yn gysylltiedig â safleoedd neu nodweddion o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu ranbarthol sy'n debygol o ddioddef effaith dra andwyol a cholli ansawdd adnodd. Fodd bynnag, gall newid mawr mewn safle neu nodwedd o bwysigrwydd lleol hefyd gael ei gynnwys yn y categori hwn.
Mawr	Ystyrir bod yr effeithiau buddiol neu andwyol hyn yn ystyriaethau pwysig iawn ac yn debygol o fod yn berthnasol yn y broses benderfynu.
Cymedrol	Gall y sgil effeithiau buddiol neu andwyol hyn fod yn bwysig, ond nid ydynt yn debygol o fod yn ffactorau penderfynu allweddol. Gall sgil effeithiau cronnus y fath ffactorau ddylanwadu ar benderfyniadau os ydynt yn arwain at gynnydd yn y sgil effaith andwyol gyffredinol ar adnodd neu dderbynnydd penodol.
Bach	Gellir codi'r sgil effeithiau buddiol neu andwyol hyn fel ffactorau lleol. Maent yn annhebygol o fod yn hanfodol yn y broses benderfynu, ond maent yn bwysig wrth wella dyluniad dilynol y prosiect.
Niwtral	Dim sgil effeithiau neu mae'r rhai sydd islaw'r lefelau canfod, o fewn ffiniau arferol amrywiad neu o fewn lwfans rhagweld gwall.

Arwyddocâd y Sgil Effaith: Dylid ystyried hyn ar ôl ystyried effeithiolrwydd y dyluniad a'r mesurau lleddfu. Yn ystod camau dylunio cynnar opsiynau'r llwybr, bydd y mesurau lleddfu wedi'u diffinio'n wael a gallant fod yn seiliedig ar arfer safonol yn unig. Lle gall mesurau lleddfu penodol fod yn ddichonol neu'n ddymunol, dylid nodi hynny ond ni ddylai ddylanwadu ar y sgôr arwyddocâd ar y cam cynnar hwn. Nodir y Categorïau Cyrraedd Arwyddocâd Sgil Effaith yn Tabl 77 isod.

Tabl 77 Categorïau Cyrraedd Arwyddocâd Sgil Effaith

		Maint yr Effaith (graddau'r newid)				
		Dim Newid	**Dibwys**	**Mân**	**Cymedrol**	**Mawr**
Gwerth Amgylcheddol (Sensitifrwydd)	**Uchel Iawn**	Niwtral	Bach	Cymedrol neu Fawr	Mawr neu Fawr Iawn	Mawr Iawn
	Uchel	Niwtral	Bach	Bach neu Gymedrol	Cymedrol neu Fawr	Mawr neu Fawr Iawn
	Canolig	Niwtral	Niwtral neu Fach	Bach	Cymedrol	Cymedrol neu Fawr
	Isel	Niwtral	Niwtral neu Fach	Niwtral neu Fach	Bach	Bach neu Gymedrol
	Dibwys	Niwtral	Niwtral	Niwtral neu Fach	Niwtral neu Fach	Bach

1.2.4. Tirwedd ac Effeithiau Gweledol

Effeithiau Dros Dro Posibl

Byddai effeithiau sy'n deillio o adeiladu unrhyw un o'r opsiynau yn cael effaith andwyol gymedrol i fawr ar dirwedd a threflun yr aneddiadau.

Bydd gwrychoedd, cloddiau, coed a rhannau o flociau coetir presennol sy'n gysylltiedig ag Opsiynau 7, J ac 11 a fyddai'n effeithio ar y dirffurf, y patrwm caeau a nodweddion y lleoliad gwledig yn cael eu colli. Opsiwn 3 fyddai'r mwyaf arwyddocaol o ran colli ac amharu ar gyfleusterau twristiaeth a hamdden yng nglan môr Niwgwl, yn ogystal ag eiddo preswyl cyfagos gydag effeithiau gweledol mawr ar y derbynyddion gerllaw. Bydd effaith andwyol ar fynediad i'r defnyddiau tir hyn ar hyd glan y môr ar ôl 2036 pan dybir na fydd y ffordd bresennol yn cael ei hamddiffyn mwyach gan amddiffynfa arfordirol a gynhelir. Bydd holl opsiynau'r llwybr yn cael sgil effaith fyrdymor fawr ar effeithiau gweledol a thirwedd yn lleol.

Bydd adeiladu Opsiynau J, 7 ac 11 yn cynnwys ardaloedd mawr o dyrchu a llenwi, gydag Opsiynau J a 7 yn torri drwy dirwedd wledig donnol ac 11 yn defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd presennol ac yn ei ehangu. Bydd hyn, ar y cyd â chael gwared ar lystyfiant aeddfed, yn arwain at newid mawr yn y dirwedd leol yn ystod y cyfnod adeiladu.

Effeithiau Parhaus Posibl

Bydd holl opsiynau arfaethedig y llwybr yn difrïo natur wledig y dirwedd o'u cwmpas drwy gyflwyno ffordd newydd neu wedi'i hehangu â chloddweithiau a strwythurau cysylltiedig a fydd yn torri ar draws y patrwm caeau presennol a'r dirffurf, gan greu nodweddion estron gweladwy yn y dirwedd.

Bydd Opsiwn 3 yn arwain at effeithiau sylweddol ar amwynder gweledol oherwydd natur y gwaith peirianyddol drwy draphont ffordd, 3m uwchlaw lefel bresennol y ddaear mewn lleoliad glan môr agored. Bydd hyn hefyd yn arwain at golli cyfleusterau twristiaeth yn Niwgwl.

Bydd Opsiynau J a 7 yn effeithio yn bennaf ar adnodd tirffurf a thirwedd gyda gwaith peirianyddol yn cynnwys rhwydweithiau ffyrdd newydd a chloddweithiau cysylltiedig, cylchfannau posibl yng nghyffyrdd yr A487 a chynigion goleuadau a chwlfertau cysylltiedig yn Nant y Brandi. Opsiwn 11 fydd yn cael yr effeithiau mwyaf sylweddol ar adnoddau tirffurf a thirwedd gyda gwaith peirianyddol yn cynnwys ehangu, cloddweithiau, goleuadau a phont 12m uwchlaw llawr presennol y cwm yn ardal y bont bresennol yn Roch Bridge.

Byddai Opsiynau J, 7 ac 11 yn torri drwy dirwedd heb ei difetha neu'n gwrthdaro â hi gyda nodweddion tirwedd pwysig yn cael effaith fwy sylweddol o ganlyniad ar adnoddau a natur y dirwedd. Byddai cylchfannau a goleuadau arfaethedig yn elfennau annodweddiadol mewn lleoliadau amlwg iawn ger cyffyrdd lle mae'r llwybrau'n croesi'r A487 a fydd yn effeithio ar natur tirwedd gynhenid ac amwynder gweledol yr ardal.

Lle y bo'n ddichonol, dylid ystyried trawsleoli'r gwrychoedd presennol. Ar ben hynny, dylid cyflwyno rhagor o wrychoedd a phlannu coed er mwyn helpu i integreiddio'r ffordd newydd neu'r ffordd bresennol wedi'i hehangu â'r dirwedd drwy feddalu llethrau wedi'u dyfeisio ar doriadau ac argloddiau a darparu sgriniau gweledol i'r preswylwyr lleol a nodweddion pwysig eraill.

Bydd yr effeithiau ar eiddo yn yr aneddiadau o ganlyniad i'r gwaith ehangu ffordd sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 11 yn arwain at golli rhywfaint o dir eiddo. O ran Opsiwn 3, byddai'n arwain at golli cyfran o Faes Gwersylla Niwgwl a thir sy'n gysylltiedig â chaffi Sands, New Surf a thafarn y Duke of Edinburgh. Byddai Opsiynau J a 7 yn cael mân effeithiau ar eiddo ynysig yn agos at y cynllun gan y byddai'r rhain yn torri drwy dirwedd wledig yn unig.

Yn y dyfodol hirdymor, byddai holl opsiynau'r llwybr yn arwain at addasiadau parhaus i brofiad y defnyddiwr ac eiddo preswyl a masnachol yn Niwgwl. Mae defnyddiau tir a gweithgareddau posibl y dyfodol ar hyd glan y môr ar ôl cael gwared ar y ffordd a'r cyfleusterau presennol yma yn cael eu hystyried fel rhan o gynigion yr uwchgynllun.

Cymharu'r Effeithiau Tirwedd a Threflun sy'n gysylltiedig ag Opsiynau'r Llwybr

Wrth asesu sut y byddai opsiynau'r llwybr yn effeithio ar y dirwedd bresennol, ystyriwyd y ffactorau canlynol:

- I ba raddau y bydd y ffordd yn weladwy yn y dirwedd.
- Natur y dirwedd a'i gallu i dderbyn newid o'r math a'r maint a gynigir.
- I ba raddau y gellir lleddfu effeithiau ac integreiddio'r ffordd â'r dirwedd.

Mae'r effeithiau ar yr agweddau canlynol ar y dirwedd hefyd wedi'u hystyried:

- Tirffurf - sut mae'r llwybr yn effeithio ar strwythur sylfaenol y dirwedd?
- Gwahaniaethau tymhorol: sut mae'r newid tymhorol mewn llystyfiant yn effeithio ar weledd y llwybr?
- Patrwm yr anheddiad: a fydd y llwybr yn difrïo'r nodweddion gwneud presennol?
- Elfennau a nodweddion tirwedd nodedig: a fydd y llwybr yn effeithio ar nodweddion naturiol neu adeiladau, strwythurau, cloddweithiau ac ati?

Mae Tablau 88 i 110 ar y tudalennau canlynol yn nodi'r prif nodweddion tirwedd a threflun a nodwyd yn yr ardal, ac maent wedi'u rhannu'n dair Ardal Agwedd y llwybrau arfaethedig. Mae hefyd yn ystyried y pedair ardal nodwedd o fewn 2km o bob llwybr, sy'n ddigon agos i brofi effeithiau gweledol anuniongyrchol.

Tabl 88 Opsiwn 3 - Ffordd newydd fel Traphont Ffordd wedi'i gosod yn ôl o ffordd bresennol y traeth

Cod Ardal Agwedd	Sensitifrwydd/ Gwerth	Nodwedd yr effeithir arni	Natur yr effaith	Maint yr effaith	Arwyddocâd yr Effaith	Effaith Gryno
Llwybr dan Ardal Agwedd:						
PMBRKVS072: Druidston – Gwerth Uchel	Uchel (anheddau)	Eiddo preswyl yn Niwgwl ac eiddo/ffermydd gwasgaredig oddi ar yr A487 yn edrych tua'r gogledd-orllewin	Ffordd newydd fel traphont ffordd (gwahaniaeth lefel 3m); mwy o draffig a sŵn, byddai'r lleoedd parcio sy'n gysylltiedig â thafarn y Duke of Edinburgh yn cael eu colli'n rhannol. Mae'r ffordd ar yr argloddiau'n cynyddu gwelededd i'r eiddo cyfagos a bydd yn cael effaith uniongyrchol ar eiddo drwy wrthdaro a cholli rhywfaint o dir.	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol
	Canolig	Cyfleusterau hamdden: Maes gwersylla Niwgwl, caffi Sands, siop New Surf	Ffordd newydd fel traphont ffordd (gwahaniaeth lefel 3m); colli patrwm caeau, mwy o draffig a sŵn. Bydd maes gwersylla Niwgwl yn cael ei wahanu a'i addasu'n barhaus. Byddai'r lleoedd parcio sy'n gysylltiedig â New Surf yn cael eu colli'n rhannol. Byddai angen adleoli gardd y siop hamdden a chaffi Sands. Byddai effaith fawr ar batrwm yr anheddiad oherwydd addasiadau ac adleoli cyfleusterau.	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol
	Canolig	Amwynder glaswelltir fel rhan o'r maes gwersylla a chorstir tua'r rhan ogleddol	Ffordd newydd fel traphont ffordd (gwahaniaeth lefel 3m); colli cynefin yn rhannol, colli patrwm caeau ac addasu'r dirffurf.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Canolig	Cwrs dŵr a chwm Nant y Brandi (wrthi'n aros am ddynodiad SoDdGA ffurfiol)	Ffordd newydd fel traphont ffordd dros gwrs dŵr Nant y Brandi (gwahaniaeth lefel 3m); tarfu ar y cynefin, cloddweithiau'n gysylltiedig â'r arglawdd ac addasu'r dirffurf	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol
	Uchel (Hawliau Tramwy Cyhoeddus)	Llwybr Arfordir Cymru	Ffordd newydd fel traphont ffordd (gwahaniaeth lefel 3m); dim effaith uniongyrchol, cynyddu gwelededd i ddefnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus ac effeithio ar natur y lleoliad.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach

	Uchel (Llwybr Beicio) Canolig	Llwybr Beicio Cenedlaethol 4 Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Ffordd newydd fel traphont ffordd (gwahaniaeth lefel 3m); effaith fân iawn gan fod y llwybr beicio yn mynd ar hyd traeth Niwgwl ar y ffordd bresennol gan darfu ar brofiad y defnyddiwr yn weledol ac ar natur y lleoliad. Ffordd newydd fel traphont ffordd (gwahaniaeth lefel 3m); Elfen uwch amlwg gyda mwy o weledded i'r eiddo cyfagos ac yn fwyaf penodol yn Niwgwl a ffermydd/eiddo gwasgaredig yn y cyffiniau agos megis Curlew Cottage, Wood Farm a lle gwely a brecwast Southwood Farm. Mae effaith hefyd ar ddefnyddwyr ffordd, defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus a safbwyntiau pellach o ganlyniad i elfen newydd yn y dirwedd. Byddai angen ystyried effaith weledol ffordd newydd a thraphont ffordd mewn ardal mor arfordirol o ganlyniad i'r lleoliad agored yn yr ardal iseldir.	Andwyol dibwys Andwyol mawr	Andwyol dibwys Andwyol mawr	Andwyol dibwys Andwyol mawr
Llwybr o fewn 2km o'r Ardal Agwedd:						
PMBRKVS029: Ffordd Sain Ffraid – Gwerth Neilltuol	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond mae potensial ar gyfer golygfeydd achlysurol o'r ffordd arfaethedig o Lwybr Arfordir Cymru oherwydd diffyg llystyfiant yn y canol a'i hagosrwydd at y llwybr. Fodd bynnag, caiff hyn ei ystyried yng nghyd-destun y ffordd bresennol a gaiff ei disodli.	Andwyol mawr	Andwyol mawr	Andwyol mawr
PMBRKVS031: Skyfog – Gwerth Uchel	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond bydd cipolygfeydd achlysurol o'r ffordd arfaethedig drwy fylchau mewn llystyfiant i ddefnyddwyr ffordd a defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
PMBRKVS031 Traeth Niwgwl – Gwerth Neilltuol	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond byddai angen ystyried yr effaith ar y lleoliad arfordirol.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach

Tabl 99 Opsiwn J – Ffordd newydd a chloddweithiau cysylltiedig drwy'r dirwedd bresennol

Cod Ardal Agwedd	Sensitifrwydd/ Gwerth	Nodwedd yr effeithir arni	Natur yr effaith	Maint yr effaith	Arwyddocâd yr Effaith	Effaith Gryno
Llwybr dan Ardal Agwedd:						

Cod Ardal Agwedd	Sensitifrwydd/ Gwerth	Nodwedd yr effeithir arni	Natur yr effaith	Maint yr effaith	Arwyddocâd yr Effaith	Effaith Gryno
MBRKVS072: Druidston – Gwerth Uchel	Uchel	Eiddo preswyl ym Mhenycwm a Fferm Niwgwl tua phen gogleddol y llwybr a Phontpren, Wood Farm a Gouts Farm tua phen deheuol y llwybr	Ffordd newydd, cylchfan, goleuadau a chloddweithiau cysylltiedig; tarfu ar eiddo ger y llwybr yn benodol tua'r pen deheuol ar ffurf traffig a sŵn. Dim effaith ar batrwm yr anheddiad.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Canolig	Caeau a ffermdir rhwng Penycwm a Wood Farm	Ffordd newydd, cylchfan, goleuadau a chloddweithiau cysylltiedig; tarfu a cholli cynefinoedd, tir amaethyddol a phatrwm caeau mewn lleoliad gwledig iawn	Andwyol mawr	Andwyol cymedrol	Andwyol mawr
	Canolig	Gwrychoedd/cloddiau aeddfed, coetir a choed unigol	Ffordd newydd, cylchfan, goleuadau a chloddweithiau cysylltiedig; byddai'r llwybr yn tramwyo drwy'r llystyfiant presennol sy'n cyfrannu at leoliad gwledig iawn yr ardal. Colli adnodd naturiol a phatrwm caeau yn barhaus a'u haddasu.	Andwyol mawr	Andwyol cymedrol	Andwyol mawr
	Canolig	Cwrs dŵr a chwm Nant y Brandi (wrthi'n aros am ddynodiad SoDdGA ffurfiol)	Ffordd newydd, cylchfan, goleuadau a chloddweithiau cysylltiedig; tarfu ac addasu cynefin a thirffurf bresennol gyda'r ffordd yn croesi Nant y Brandi gyda'r cwlfert arfaethedig yn rhan o'r gwaith.	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol
	Uchel (Hawliau Tramwy Cyhoeddus)	Hawliau tramwy cyhoeddus ar draws caeau agored	Ffordd newydd, cylchfan, goleuadau a chloddweithiau cysylltiedig; Gwahanu ac addasu 1 hawl dramwy gyhoeddus yn sgil adlinio neu golli llystyfiant.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Uchel (Llwybr Beicio)	Llwybr Beicio Cenedlaethol 4	Ffordd newydd, cylchfan, goleuadau a chloddweithiau cysylltiedig; effaith uniongyrchol gan fod pen gogleddol y ffordd yn croesi rhan fach o'r llwybr beicio ar yr A487 gan darfu ar brofiad y defnyddiwr yn weledol ac ar natur y lleoliad.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Ffordd newydd, cylchfan, goleuadau a chloddweithiau cysylltiedig; gweledded i'r derbynyddion amgylchynol, gan gynnwys Eglwys Bedyddwyr Peniel, eiddo ym Mhenycwm, Niwgwl a ffermydd gwasgaredig yn y cyffiniau. Ar ben hyn, bydd effeithiau gweledol ar ddefnyddwyr ffordd, defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus, Eglwys Bedyddwyr Peniel a derbynyddion pellach. Gwahanu cynefin, llystyfiant a cholli patrwm caeau o ganlyniad. Byddai angen ystyried effaith weledol ffordd newydd, cylchfan a goleuadau o ran y lleoliad gwledig iawn a natur yr ardal a'r effaith ar hyn oherwydd natur annodweddiadol y gwaith cysylltiedig. Gan ystyried yr ardal gynwysedig lle bydd y cylchfan a'r goleuadau tua'r gyffordd ddeheuol a, chyda'r mesurau lleddfu priodol, gallai'r effaith andwyol hon gael ei lleddfu gyda threigl amser.	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol

Cod Ardal Agwedd	Sensitifrwydd/ Gwerth	Nodwedd yr effeithir arni	Natur yr effaith	Maint yr effaith	Arwyddocâd yr Effaith	Effaith Gryno
Llwybr o fewn 2km o'r Ardal Agwedd:						
PMBRKVS029: Ffordd Sain Ffraid – Gwerth Neilltuol	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond mae potensial ar gyfer golygfeydd achlysurol o Lwybr Beicio 4 a Llwybr Arfordir Cymru oherwydd diffyg llystyfiant yn y canol a'i hagosrwydd at y llwybr.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
PMBRKVS036: Nant y Brandi – Gwerth Uchel	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond mae potensial ar gyfer golygfeydd ysbeidiol achlysurol tua'r de-orllewin oherwydd ei hagosrwydd at y llwybr. Bydd llystyfiant yn y canol a thirffurf donnog yn rhywfaint o fesur cuddio.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
PMBRKVS031: Skyfog – Gwerth Uchel	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond bydd cipolygfeydd achlysurol o'r ffordd arfaethedig drwy fylchau mewn llystyfiant.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
PMBRKVS071 Simpson Cross – Gwerth Cymedrol	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond bydd cipolygfeydd rhannol o'r ffordd arfaethedig tua'r gorllewin.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
PMBRKVS031 Traeth Niwgwl – Gwerth Neilltuol	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond byddai angen ystyried yr effaith ar y lleoliad arfordirol.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
PMBRKVS112 Maes Awyr Breudeth – Gwerth Isel	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, heb lawer o effaith weledol ar yr ardal agwedd, os o gwbl, oherwydd y dirffurf yn y canol a gorchudd llystyfiannol.	Andwyol dibwys	Niwtral	Andwyol bach

Tabl 100 Opsiwn 7 – Ffordd newydd a chloddweithiau cysylltiedig drwy'r dirwedd bresennol

Cod Ardal Agwedd	Sensitifrwydd/ Gwerth	Nodwedd yr effeithir arni	Natur yr effaith	Maint yr effaith	Arwyddocâd yr Effaith	Effaith Gryno
Llwybr dan Ardal Agwedd:						
PMBRKVS072: Druidston – Gwerth Uchel	Uchel	Eiddo preswyl ym Mhenycwm, Llethr a Llethr Isaf tua rhan ogleddol y llwybr; Pontpren yn y rhan ddeheuol	Ffordd newydd, cylchfan, goleuadau a chloddweithiau cysylltiedig; mwy o darfu, traffig a sŵn ger eiddo. Dim effaith ar batrwm yr anheddiad.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Canolig	Caeau a ffermdir rhwng Penycwm a Phontpren.	Ffordd newydd, cylchfan, goleuadau a chloddweithiau cysylltiedig; tarfu a cholli cynefinoedd, tir amaethyddol a phatrwm caeau mewn lleoliad gwledig iawn.	Andwyol mawr	Andwyol cymedrol	Andwyol mawr
	Canolig	Gwrychoedd/cloddiau aeddfed, coed a blociau coetir	Ffordd newydd, cylchfan, goleuadau a chloddweithiau cysylltiedig; byddai'r llwybr yn tramwyo drwy'r llystyfiant presennol sy'n cyfrannu at leoliad tirwedd gwledig iawn yr ardal. Colli adnodd naturiol a thirffurf yn barhaus a'u haddasu.	Andwyol mawr	Andwyol cymedrol	Andwyol mawr
	Canolig	Cwrs dŵr a chwm Nant y Brandi (wrthi'n aros am ddynodiad SoDdGA ffurfiol)	Ffordd newydd, cylchfan, goleuadau a chloddweithiau cysylltiedig; tarfu ac addasu cynefin a thirffurf bresennol.	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol
	Uchel (Hawliau Tramwy Cyhoeddus)	Hawliau tramwy cyhoeddus ar draws caeau agored	Gwahanu ac addasu 2 hawl dramwy gyhoeddus oherwydd adlinio neu golli llystyfiant.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Uchel (Llwybr Beicio)	Llwybr Beicio Cenedlaethol 4	Ffordd newydd, cylchfan, goleuadau a chloddweithiau cysylltiedig; effaith uniongyrchol gan fod pen gogleddol y ffordd yn croesi rhan fach o'r llwybr beicio ar yr A487 gan darfu ar brofiad y defnyddiwr yn weledol ac ar natur y lleoliad.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Ffordd newydd, cylchfan, goleuadau a chloddweithiau cysylltiedig; gweledded i'r derbynyddion amgylchynol, gan gynnwys Eglwys Bedyddwyr Peniel, eiddo ym Mhenycwm, Niwgwl a ffermydd gwasgaredig yn y cyffiniau. Ar ben hyn, bydd effeithiau gweledol ar ddefnyddwyr ffordd, defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus, Eglwys Bedyddwyr Peniel a derbynyddion pellach. Gwahanu cynefin, llystyfiant a cholli patrwm caeau o ganlyniad. Byddai angen ystyried effaith weledol ffordd newydd, cylchfan a goleuadau o ran y lleoliad gwledig iawn a natur yr ardal a'r effaith ar hyn oherwydd natur annodweddiadol y gwaith cysylltiedig. Gan ystyried yr ardal gynwysedig lle bydd y cylchfan a'r goleuadau tua'r gyffordd ddeheuol a, chyda'r mesurau lleddfu priodol, gallai'r effaith andwyol hon gael ei lleddfu gyda threigl amser.	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol

Cod Ardal Agwedd	Sensitifrwydd/ Gwerth	Nodwedd yr effeithir arni	Natur yr effaith	Maint yr effaith	Arwyddocâd yr Effaith	Effaith Gryno
PMBRKVS112 Maes Awyr Breudeth (rhan fach o'r llwybr) – Gwerth Isel	Canolig	Caeau a ffermdir ym Mhenycwm	Ffordd newydd a gwaith gwella i'r ffordd bresennol gyda chloddweithiau cysylltiedig; rhan fach o'r llwybr yn yr Ardal Agwedd tua phen gorllewinol y llwybr yn torri drwy'r caeau presennol, gan darfu a cholli cynefinoedd.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Canolig	Cloddiau/gwrychoedd aeddfed ym Mhenycwm	Ffordd newydd a gwaith gwella i'r ffordd bresennol gyda chloddweithiau cysylltiedig; mae'r llwybr yn tramwyo drwy'r llystyfiant presennol sy'n cyfrannu at leoliad tirwedd gwledig iawn yr ardal. Colli adnodd naturiol yn barhaus.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
PMBRKVS031: Skyfog (rhan fach o'r llwybr) – Gwerth Uchel	Canolig	Caeau a ffermdir ym Mhenycwm	Ffordd newydd a gwaith gwella i'r ffordd bresennol gyda chloddweithiau cysylltiedig; rhan fach o'r llwybr tua'r pen gorllewinol yn torri drwy'r caeau presennol, gan darfu a cholli cynefinoedd.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Canolig	Cloddiau/gwrychoedd aeddfed ym Mhenycwm	Ffordd newydd a gwaith gwella i'r ffordd bresennol gyda chloddweithiau cysylltiedig; byddai'r llwybr yn tramwyo drwy'r llystyfiant presennol sy'n cyfrannu at leoliad tirwedd gwledig iawn yr ardal. Colli adnodd naturiol yn barhaus.	Andwyol mân	Andwyol mân	Andwyol bach
Llwybr o fewn 2km o'r Ardal Agwedd:						
PMBRKVS029: Ffordd Sain Ffraid – Gwerth Neilltuol	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond mae potensial ar gyfer golygfeydd achlysurol o'r ffordd arfaethedig o'r llwybr beicio a Llwybr Arfordir Cymru oherwydd diffyg llystyfiant yn y canol a'i hagosrwydd at y llwybr.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
PMBRKVS036: Nant y Brandi – Gwerth Uchel	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond mae potensial ar gyfer golygfeydd achlysurol o'r ffordd arfaethedig tua'r de-orllewin oherwydd ei hagosrwydd at y llwybr. Bydd llystyfiant yn y canol a thirffurf donnog yn rhywfaint o fesur cuddio.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
PMBRKVS071 Simpson Cross – Gwerth Cymedrol	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond bydd cipolygfeydd rhannol o'r ffordd arfaethedig tua'r gorllewin.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
PMBRKVS031 Traeth Niwgwl – Gwerth Neilltuol	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond byddai angen ystyried yr effaith ar y lleoliad arfordirol.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach

Tabl 110 Opsiwn 11 – Ehangu'r ffordd bresennol a chloddweithiau cysylltiedig

Cod Ardal Agwedd	Sensitifrwydd/ Gwerth	Nodwedd yr effeithir arni	Natur yr effaith	Maint yr effaith	Arwyddocâd yr Effaith	Effaith Gryno
Llwybr dan Ardal Agwedd:						
PMBRKVS031: Skyfog – Gwerth Uchel	Uchel	Eiddo preswyl ym Mhenycwm, Rhydygele, Trewên Uchaf ac Isaf, Roch Bridge a'r Garn ar hyd y ffordd bresennol, gan gynnwys llety hunanddarpar The Granary ym Melin y Garn ac eiddo a ffermydd gwasgaredig eraill ar hyd y llwybr.	Ehangu'r ffordd bresennol, cloddweithiau cysylltiedig, goleuadau a phont newydd; mwy o darfu oherwydd traffig, sŵn a goleuadau ger eiddo ar ben tresmasu ar dir.	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol
	Uchel	Hawliau tramwy cyhoeddus ar draws caeau agored	Ehangu'r ffordd bresennol, cloddweithiau cysylltiedig, goleuadau a phont newydd; tarfu ar dair hawl dramwy gyhoeddus dros dro yn sgil ehangu'r ffordd bresennol, gan gynnwys pont newydd.	Andwyol dibwys	Andwyol dibwys	Andwyol dibwys
	Canolig	Eglwys Bedyddwyr Peniel	Ehangu'r ffordd bresennol, cloddweithiau cysylltiedig, goleuadau a phont newydd; mwy o draffig a sŵn ger yr eglwys ar ben tresmasu ar dir.	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol
	Canolig	Caeau a ffermdir ger y ffordd	Ehangu'r ffordd bresennol, cloddweithiau cysylltiedig, goleuadau a phont newydd; tarfu a cholli cynefinoedd, tir amaethyddol a phatrwm caeau yn rhannol mewn lleoliad gwledig iawn.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Canolig	Gwrychoedd/cloddiau aeddfed, coed a blociau coetir	Ehangu'r ffordd bresennol, cloddweithiau cysylltiedig, goleuadau a phont newydd; colli llystyfiant o ganlyniad i ehangu'r ffordd, sy'n cyfrannu at leoliad tirwedd gwledig iawn yr ardal. Colli adnodd naturiol yn barhaus.	Andwyol mawr	Andwyol cymedrol	Andwyol mawr
	Canolig	Cwrs dŵr a chwm Nant y Brandi (wrthi'n aros am ddynodiad SoDdGA ffurfiol)	Ehangu'r ffordd bresennol, cloddweithiau cysylltiedig, goleuadau a phont newydd; tarfu ar y cynefin presennol.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Ehangu'r ffordd bresennol, cloddweithiau cysylltiedig, goleuadau a phont newydd; gweledded cyfyngedig i'r derbynyddion cyfagos, gan gynnwys eiddo, defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus a defnyddwyr ffordd gydag ambell dderbynnydd pellach. Pan fydd wedi'i chwblhau, caiff y ffordd ei hystyried yng nghyd-destun y rhwydwaith ffyrdd presennol. Byddai angen ystyried effaith weledol ffordd newydd a'i chloddweithiau cysylltiedig o ran lleoliad gwledig iawn a natur yr ardal a'r effaith ar hyn.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach

Cod Ardal Agwedd	Sensitifrwydd/ Gwerth	Nodwedd yr effeithir arni	Natur yr effaith	Maint yr effaith	Arwyddocâd yr Effaith	Effaith Gryno
PMBRKVS112 Maes Awyr Breudeth (ffin yr Ardal Agwedd) – Gwerth Isel	Uchel	Eiddo preswyl ym Mhenycwm a Rhydygele ar hyd y ffordd bresennol	Ehangu'r ffordd bresennol a chloddweithiau cysylltiedig; mwy o draffig a sŵn ger eiddo ar ben tresmasu ar dir.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Uchel (Hawliau Tramwy Cyhoeddus)	Hawliau tramwy cyhoeddus ar draws caeau agored	Ehangu'r ffordd bresennol a chloddweithiau cysylltiedig; tarfu'n anuniongyrchol ar un hawl dramwy gyhoeddus ym Mhenycwm gyda mwy o sŵn oherwydd ehangu'r ffordd bresennol.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Uchel (Llwybr Beicio)	Llwybr Beicio Cenedlaethol 4	Ehangu'r ffordd bresennol a chloddweithiau cysylltiedig; effaith uniongyrchol gan fod pen gogleddol y ffordd yn croesi rhan fach o'r llwybr beicio ar yr A487 gan darfu ar brofiad y defnyddiwr yn weledol ac ar natur y lleoliad.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Canolig	Caeau a ffermdir ger y ffordd	Ehangu'r ffordd bresennol a chloddweithiau cysylltiedig; tarfu a cholli cynefinoedd, tir amaethyddol a phatrwm caeau yn rhannol mewn lleoliad gwledig iawn.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
	Canolig	Gwrychoedd/cloddiau aeddfed a choed	Ehangu'r ffordd bresennol a chloddweithiau cysylltiedig; colli llystyfiant o ganlyniad i ehangu'r ffordd, sy'n cyfrannu at leoliad tirwedd gwledig iawn yr ardal. Colli adnodd naturiol yn barhaus.	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol	Andwyol cymedrol
	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Ehangu'r ffordd bresennol a chloddweithiau cysylltiedig; gweledodd cyfyngedig i'r derbynyddion cyfagos, gan gynnwys ychydig o eiddo ym Mhenycwm a Barics Cawdor ger y llwybr. Pan fydd wedi'i chwblhau, caiff y ffordd ei hystyried yng nghyd-destun y rhwydwaith ffyrdd presennol. Byddai angen ystyried effaith weledol ffordd newydd a'i chloddweithiau cysylltiedig o ran lleoliad gwledig iawn a natur yr ardal a'r effaith ar hyn.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
Llwybr o fewn 2km o'r Ardal Agwedd						
PMBRKVS029: Ffordd Sain Ffraid – Gwerth Neilltuol	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond mae potensial ar gyfer golygfeydd achlysurol o'r ffordd arfaethedig o'r llwybr beicio a Llwybr Arfordir Cymru ar dir uchel oherwydd diffyg llystyfiant yn y canol a'i hagosrwydd at y llwybr.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
PMBRKVS036: Nant y Brandi – Gwerth Uchel	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond mae potensial ar gyfer golygfeydd achlysurol o'r ffordd arfaethedig gan ei bod yn croesi ger yr Ardal Agwedd yn Silver Hill. Bydd llystyfiant yn y canol a thirffurf donnog yn rhywfaint o fesur cuddio.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach
PMBRKVS031 Traeth Niwgwl – Gwerth Neilltuol	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond bydd cipolygfeydd rhannol o'r ffordd arfaethedig tua'r gorllewin.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach

Cod Ardal Agwedd	Sensitifrwydd/ Gwerth	Nodwedd yr effeithir arni	Natur yr effaith	Maint yr effaith	Arwyddocâd yr Effaith	Effaith Gryno
PMBRKVS071 Simpson Cross – Gwerth Cymedrol	Canolig	Golygfeydd y tu mewn i'r ardal a'r tu allan iddi	Dim effeithiau uniongyrchol ar yr Ardal Agwedd hon, ond byddai angen ystyried yr effaith ar y lleoliad arfordirol.	Andwyol mân	Andwyol bach	Andwyol bach

1.2.5. Casgliad

Mae'r asesiad WelTAG Cam 1 hwn wedi ystyried Opsiynau llwybr 3, J, 7 ac 11 a'u heffaith ar adnodd y dirwedd, ei natur a'r amwynder gweledol mewn tirwedd wledig sensitif, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael ar adeg ysgrifennu'r asesiad.

O ran Opsiwn 3, bydd y llwybr hwn yn cael effaith gymedrol gyffredinol ar adnodd y dirwedd a dyma'r byrraf o'r pedwar opsiwn. Ystyriwyd ei fod yn cael effaith gymedrol ar eiddo preswyl ac ar darfu, cael gwared ar amwynderau lleol yn barhaus a chyfleusterau twristiaeth a'u hadleoli ar hyd glan y môr yn Niwgwl. Bydd effaith andwyol hefyd ar y golygfeydd y tu mewn i'r ffiniau a'r tu allan iddynt gyda nodwedd amlwg newydd mewn lleoliad glan môr agored sy'n cwmpasu traphont ffordd 3m o uchder yn y dirwedd, gan effeithio'n benodol ar y rhai yn Niwgwl, yr eiddo cyfagos, defnyddwyr yr A487 a defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus sy'n profi golygfeydd trawiadol tua'r arfordir. Ond, pan fydd y ffordd newydd yn ei lle, yn ôl o lan y môr, mae potensial ar gyfer gwaith gwella ac uwchraddio drwy gynigion tir cyhoeddus newydd ar hyd glan y môr a fydd yn gwella profiad y defnyddiwr. Yn seiliedig ar yr holl agweddau a ystyriwyd a, chan ei fod mewn ardal agwedd gwerth uchel â lleoliad arfordirol iawn, aseswyd ei fod yn cael effaith andwyol gymedrol gyffredinol ar y dirwedd a'r treflun yn fwyaf penodol wrth ystyried yr effeithiau ar y golygfeydd tua glan y môr ac ar lan y môr ei hun.

Byddai Opsiynau llwybr J a 7 yn difrïo nodweddion mewn lleoliad gwledig iawn, gan dorri drwy nodweddion tirwedd pwysig a sensitif, gan gynnwys gwrychoedd, coetir a choed mewn ardal agwedd gwerth uchel. Bydd ardaloedd mawr o dyrchu a llenwi gan eu bod yn mynd drwy dirwedd donnol, gan addasu'r dirffurf a natur y dirwedd yn y pen draw yn barhaus ar ben tresmasu ar eiddo cyfagos. Ar ben hyn, lle mae'r llwybrau'n croesi'r A487, cynigir cylchfannau a goleuadau sy'n creu elfennau annodweddiadol yn y lleoliad tirwedd hwn. Byddai'r mesurau lleddfu ar ffurf trawsleoli a gwaith plannu newydd yn helpu i wrthbwyso'r effaith hon a chynnig mesurau cuddio o ran amwynder gweledol. Yn gyffredinol, o ran yr effaith barhaus y bydd y rhain yn ei chael ar y dirffurf, ei natur ac adnoddau'r dirwedd mewn lleoliad gwledig sensitif, aseswyd eu bod yn cael effaith andwyol gymedrol gyffredinol ar y dirwedd a'r treflun.

Bydd Opsiwn 11 yn cynnwys cloddweithiau arfaethedig, goleuadau wrth gyffordd yr A487, pont 12m o uchder yng nghyffiniau Roch Bridge ac ehangu lonydd presennol Roch Hill a Bramble Hill sy'n croesi'r A487. Bydd y llwybr yn cael effeithiau mawr ar nodweddion tirwedd megis gwrychoedd, coetir a choed, gan arwain at golli adnoddau ac addasu tirffurf yn barhaus. Bydd hefyd yn cael effeithiau cymedrol ar eiddo cyfagos lle bydd ehangu'r ffordd yn golygu tresmasu ar dir. Fodd bynnag, bydd trawsleoli a'r gwaith plannu newydd yn helpu i leddfu hyn drwy guddio a disodli adnoddau pwysig a chaiff hyn ei ystyried hefyd yng nghyd-destun defnyddio'r ffordd bresennol. Felly, bydd yr effeithiau ar y lleoliad a'r amwynder gweledol yn fân ac oherwydd hyn, wrth ystyried mesurau lleddfu, bydd yn cael effaith andwyol fân gyffredinol ar y dirwedd a'r treflun.